



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



Hyfforddiant Addasu i Newid
Hinsawdd a Chyðnerthedd

Modiwl 2: Cyflwyno Rheoli Risg a Newid

Asesu Risg, Defnyddio Ymagwedd CCACCP (Dadansoddiad
Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol)
a Thechnegau ar gyfer Rheoli Newid

Tabl Cynnwys

Cynnwys	2
Byrfoddau	3
Croeso i'r Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd	4
Sut i ddefnyddio'r modiwlau hyfforddiant	5
Sut i gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi, a'r canllawiau cam wrth gam	6
Cyflwyno CCACCP: Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau	7
Hinsawdd Critigol	
CCACCP – Ymagwedd systematig	7
Defnyddio ymagwedd CCACCP	8
Manteision ymagwedd CCACCP	10
Dadansoddi ac Asesu Risg	10
Dadansoddi risg	11
Beth yw risg?	11
Cynnal asesiad risg	12
Y tabl asesu risg	12
Lliniaru'r risg	12
Dysgu o ddigwyddiadau trwch blewyn	13
Ffocws Ar : Effeithiau Rhaeadru	15
Adnabod effeithiau rhaeadru	16
Rheoli Newid	17
Dadansoddiad maes grym	18
Yn Dod Nesaf: Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd	20
Modiwl 3	


Byrfodau

Gweler rhestr o fyrfoddau a ddefnyddir yn yr hyfforddiant hwn isod:

AHDB	Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
CCACCP	Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol
CCJ	Dyfarniad Llys Sirol
CCRA _s	Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd
CMA	Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y Deyrnas Unedig
COSHH	Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd
CO ₂	Carbon Deuocsid
C3S	Gwasanaeth Newid Hinsawdd Copernicus yr Undeb Ewropeaidd
ENA	Cymdeithas Rhwydwaith Ynni
EPD	Datblygu Cynnyrch Presennol
GDPR	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
GHG	Nwy Tŷ Gwydr
HACCP	Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol
ICT	Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
INNS	Rhywogaethau Anfroddorol Ymledol
IPCC	Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd
ISSB	Bwrdd Safonau Cynaliadwyedd Rhyngwladol
MPRN	Rhifau Cyfeirnod Pwynt Mesurydd
NPD	Datblygu Cynnyrch Newydd
NRW	Cyfoeth Naturiol Cymru
ONS	Swyddfa Ystadegau Gwladol y Deyrnas Unedig
RCP _s	Llwybrau Crynadau Cynrychioliadol
TCFD	Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd
UK SDS	Safonau Datgelu Cynaliadwyedd y Deyrnas Unedig
UKCCC	Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig
UNEP	Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig
WMO	Sefydliad Meteorolegol y Byd
WRAP	Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau

Croeso i'r Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chyðnerthedd

Nod y modiwlau hyfforddiant yw annog busnesau i ddod yn ymwybodol o'r hinsawdd yn eu gweithrediadau bob dydd trwy ddarparu cymorth ymarferol i feithrin y sgiliau a'r ymagweddau sydd eu hangen i ddelio'n llwyddiannus â digwyddiadau anrhagweladwy.



Trwy gydnabod y risgiau a'r cyfleoedd sy'n dod yn sgil newid hinsawdd a gwneud addasiadau tra ystyriol, gall eich busnes gryfhau ei gydnerthedd i ddelio â siociau o fewn eich cadwyni cyflenwi, lleihau neu osgoi effeithiau negyddol a manteisio ar y cyfleoedd a allai godi.

Dyma'r ail o 8 modiwl rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n eu cael yn graff ac yn ddefnyddiol.

Sut i ddefnyddio'r modiwl hyfforddiant hwn

Cynlluniwyd y modiwlau hyfforddiant fel canllawiau addysgiadol i'ch helpu i asesu'ch busnes yng nghydestun newid hinsawdd.

Er bod pob menter bwyd a diod yn unigryw, rydym yn gobeithio trwy ddewis a gweithredu ar y modiwlau sydd fwyaf perthnasol i'ch busnes chi, y byddwch yn creu fframwaith i benderfynu ar yr addasiadau sydd eu hangen i wneud eich busnes yn fwy cydnerth i newid hinsawdd, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r modiwlau hyfforddiant wedi'u strwythuro yn y ffordd ganlynol:

Modiwl 1: Cyflwyniad i Addasu i Newid Hinsawdd

Module 2: Cyflwyno Risg a Rheoli Newid ac ymagwedd CCACCP

(Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol)

Modiwl 3: Safleoedd a Mynediad

Modiwl 4: Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu Bwyd

Modiwl 5: Cadwyni Cyflenwi a Mewnbynnau Busnes

Modiwl 6: Ystyriaethau Cyllid a Chyfreithiol

Modiwl 7: Staff a Darparwyr Gwasanaethau

Modiwl 8: Cwsmeriaid a Defnyddwyr

Trwy gydol y modiwlau, byddwch yn dod o hyd i enghreifftiau, cyfeiriadau a dolenni at restrau gwirio a thempledi golygadwy i'ch helpu i asesu a gweithredu'r newidiadau dymunol yn eich busnes.

Sut i gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi a'r canllawiau cam wrth gam

Trwy glicio ar y dolenni a ddangosir trwy gydol y modiwlau hyfforddiant, gallwch gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi neu'r canllawiau cam wrth gam o'ch dewis chi.

Bydd y ddolen yn mynd â chi at leoliad Dropbox lle bydd gennych chi nifer o ddewisiadau:

1. Os oes gennych chi gyfrif Dropbox eisoes, gallwch chi fewngofnodi i hwn.
2. Os ydych chi'n dymuno creu cyfrif Dropbox, mae'r opsiwn hwn ar gael i chi.
3. Os ydych chi'n syml yn dymuno cael mynediad at y ddogfen, cliciwch ar y saeth Lawrlwytho i'w lawrlwytho i'ch dyfais.

Lawrlwytho'r Ddogfen yma

Mewngofnodi i'ch Cyfrif Dropbox yma

Creu Cyfrif Dropbox yma

300208 ACH V4 Climate Conscious What If Template 241005 PDF

File Edit View Help

Page 1 of 2 Edit PDF Draw Highlight Add text

1 of 1 Copy link Log in Sign up

Climate Adaptation and Resilience : "What If" Template

What would happen if?	What are the possible implications for the business?	How prepared is your business for this scenario? Very well prepared, partly prepared, poorly prepared?	What might we do to be better prepared?
Our utilities connections were disrupted or lost ? Loss of power ?			
Loss of water ?			
Our staff are unable to get to work ?			
Our incoming deliveries are unable to get to us ?			

Cyflwyno CCACCP: Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol


CCACCP – Ymagwedd systematig CCACCP – Ymagwedd systematig

Gall digwyddiad hinsawdd difrifol darfu ar barhad busnes mewn llawer o wahanol ffyrdd, ac felly mae'r hyfforddiant hwn yn cyflwyno cysyniad CCACCP, Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol, fel ffordd ymarferol a threfnus i asesu, blaenoriaethu a mynd i'r afael ag effeithiau, risgiau a chyfleoedd newid hinsawdd ar gyfer eich busnes.

Mae'r fframwaith hwn yn defnyddio egwyddorion HACCP (Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol) sy'n ffurfio'r sylfaen i sicrhau diogelwch bwyd ac maent yn dra hysbys i ymarferwyr ar draws y diwydiant bwyd.

Mae saith cam HACCP yn rhoi methodoleg systematig i gynhyrchwyr bwyd a diod ar gyfer asesu risg, nodi pwyntiau allweddol pryd y gellir cymryd camau i sicrhau diogelwch a diffinio beth yw'r paramedrau diogelwch ar gyfer eu cynnyrch penodol, ynghyd â phennu pa gamau, prosesau monitro, cofnodi a gwirio sydd eu hangen i sicrhau bod pob eitem a gynhyrchir yn ddiogel i'w bwyta/yfed.

CCACCP: Dadansoddiad sy'n ymwybodol o'r hinsawdd a phwyntiau hinsawdd critigol Safle a Mynediad



Gan ddefnyddio ymagwedd systematig CCACCP, bydd yr hyfforddiant hwn yn awgrymu ffyrdd syml ond effeithiol i'ch busnes fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'n amlinellu paratodau y gallwch eu gwneud cyn i chi wynebu tywydd eithafol sy'n effeithio ar eich busnes.

Defnyddio ymagwedd CCACCP

Mae'r meysydd y bydd yr hyfforddiant yn ymdrin â nhw yn cynnwys:

- Eich safle a'ch adeiladau.
- Eich cadwyni cyflenwi ar gyfer deunyddiau crai, offer, cyfleustodau neu fewnbynnau busnes eraill.
- Eich trefniadau logisteg ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi i'ch cwsmeriaid.
- Eich tîm a sut orau y gallent ymdopi â sefyllfaoedd heriol, a bowsio'n ôl ohonynt.
- Camau rhagweithiol sy'n gallu gwella eich sesiynau sylw i gwsmeriaid a darparwyr cyllid, a fydd yn lleihau costau yn y tymor hwy ac yn gwarchod eich enw da.

Gallai newid hinsawdd gyflwyno cyfleoedd masnachol newydd i'ch busnes wrth i ymddygiadau ac anghenion defnyddwyr ymateb i'r newidiadau hyn. Dyma enghreifftiau posibl:

- Wrth i'r tywydd ac amodau cynyddol newid, efallai bydd deunyddiau crai yr arferid eu cael o dramor ddod ar gael yn y Deyrnas Unedig.
- Gallai ddod yn hyfyw cynhyrchu mathau newydd o gynhyrchion yn gyson i'r safon ddymunol yng Nghymru.
- Gyda tywydd cynhesach yn ymestyn i fisoedd yr hydref a'r gwanwyn, efallai bydd cynhyrchion sy'n boblogaidd ym misoedd yr haf yn gwerthu dros gyfnod llawer hwy nag yn y gorffennol.
- Gallai defnyddwyr fod yn chwilio am gynhyrchion a brandiau sy'n eu helpu i leihau eu holion troed carbon mewn ffyrdd amrywiol, er enghraifft:
 - Osgoi deunyddiau pecynnu na ellir eu hailgylchu.
 - Cefnogi arferion ffermio sy'n sensitif i'r amgylchedd.
 - Bwyta mwy o fwydydd o blanhigion neu opsiynau carbon isel eraill.
 - Dewis bwyta'n fwy lleol a bwydydd a gynhyrchir yn dymhorol.

I lawer o fusnesau bwyd a diod, mae gweithredu HACCP yn aml yn cynrychioli ffrwd waith benodol o fewn eu Systemau Rheoli Ansawdd. Efallai bydd angen sgiliau a gwybodaeth benodol ar gyfer hyn, a gyda aelodau'r tîm yn cyfrannu at sefydlu a sicrhau bod cynlluniau HACCP yn cael eu rheoli'n effeithiol a pharhaus.

Fodd bynnag, gyda CCACCP, rydym yn defnyddio ymagwedd ychydig yn wahanol sy'n cydnabod bod adnoddau busnesau bwyd a diod yn gyfyngedig, ac efallai nad oes ganddynt yr amser i gynnal "prosiect" ar wahân ynghylch addasu i newid hinsawdd.

Yn hytrach, mae'r hyfforddiant hwn yn eirioli ymgorffori ymwybyddiaeth newid hinsawdd ym mhob agwedd a phenderfyniad o fewn eich busnes, felly nid yw'n un dasg yn fwy ar eich rhestr hirfaith o "bethau i'w gwneud" nad ydych byth yn bwrw ymlaen â nhw!

Wrth i effeithiau hinsawdd ddod yn amlach, yn fwy anwadal a difrifol, gellir sicrhau buddion busnes pwysig trwy sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r hinsawdd yn rhan ddi-dor o'ch ffyrdd o weithio o ddydd i ddydd.

Ar draws y modiwlau hyfforddiant, byddwn yn darparu cymorth ar gyfer y camau i weithredu eich cynlluniau CCACCP, fel yr amlinellir yn y ffeithlun isod, gan gynnwys rhestr wirio y gallwch ei golygu i'w theilwra i'ch amgylchiadau busnes penodol a fydd yn helpu eich arwain trwy'r camau hyn.

[Cliciwch yma i weld rhestr wirio](#)
[olygadwy a fydd yn eich arwain trwy'r](#)
[camau at greu eich cynllun CCACCP](#)

8 Cam syml at eich cynllun CCACCP



1. Deall y risgiau a'r cyfleoedd posibl yn sgil newid hinsawdd o fewn eich gweithrediadau busnes



2. Asesu ac adnabod risgiau a chyfleoedd penodol ar draws 6 maes busnes allweddol



3. Adnabod pwyntiau critigol pryd y gellid cymryd camau i leihau neu osgoi deilliannau negyddol



4. Penderfynu pa gamau brys i'w cymryd a pha gynlluniau neu baratodau sydd eu hangen ar gyfer sefyllfa frys



5. Pennu'r amodau y bydd cynlluniau gweithredu brys yn cael eu sbarduno oddi tanynt



6. Adnabod beth sydd angen ei fonitro, a threfnu hyn ar amllder priodol



7. Cadarnhau bod y gweithgareddau, y paratodau a'r cynlluniau sydd ar waith yn berthnasol a digonol o hyd - dylid eu diweddarau yn ôl yr angen



8. Rhannu eich gweithgareddau a'ch cynlluniau gyda'ch tîm, eich cyfranddallwyr, eich cwsmeriaid neu randdeiliaid eraill fel sy'n briodol, yn eich barn chi

**Llif
Flood**

Manteision ymagwedð CCACCP

Gallai'r ymagwedð CCACCP hon ymddangos braidd yn frawychus i chi ar y dechrau!

Gallai'r cysyniad ymddangos fel llawer o waith i gael manteision sydd, ar y cychwyn, efallai'n anodd i'ch busnes eu dirnad neu efallai eich bod yn meddwl ein bod yn mynd i'r afael â digwyddiadau hinsawdd sy'n ymddangos ymhell i ffwrdd.

Fodd bynnag, fel y mae'r achosion diweddar o stormydd a llifogydd mawr yng Nghymru, a sychder a glawiad anwadal mewn llawer o wledydd sy'n cynhyrchu bwyd dramor wedi dangos, rydym yn gweld effeithiau negyddol newid hinsawdd nawr.

Felly, rydym ni'n mynd i rannu'r dasg i greu eich ymagwedð ymwybodol o'r hinsawdd yn "ddarnau bach" hylaw ac edrych ar chwe agwedð wahanol ar eich busnes yn eu tro.

Wrth i chi droi eich sylw at bob un o'r chwe thestun hyn, byddwch yn gweld eu bod yn aml yn gorgyffwrdd neu'n rhyngddibynnol, ond mae'n ffordd ddefnyddiol i symud ymlaen heb gael eich gorlethu.

Ochr yn ochr â'r chwe thestun hyn, byddwn hefyd yn cyflwyno technegau rheoli i'ch helpu i ystyried effeithiau posibl a ffyrdd o ymdrin â digwyddiadau anrhwagweladwy. Gobeithio y bydd y rhain efallai'n ddefnyddiol i chi, nid yn unig wrth feddwl am yr hinsawdd, ond ar gyfer delio ag unrhyw fath o amgylchiadau annisgwyl a allai godi a bygwth parhad eich busnes.

Dadansoddi ac Asesu Risg

Mae cynnal asesiad risg yn ffordd brofedig o ystyried p'un a yw rhywbeth yn fygythiad posibl, ac i ba raddau, gan felly ein galluogi i flaenoriaethu cynlluniau, camau ac adnoddau i fynd i'r afael â'r meysydd hynny sy'n cynrychioli'r risg uchaf o ran effeithiau negyddol.

Mae busnesau gweithgynhyrchu bwyd a diod eisoes yn defnyddio asesiadau risg wrth ystyried testunau fel iechyd a diogelwch staff neu bobl eraill sy'n ymwneud â'u busnes, gan fapio peryglon a allai effeithio ar ddiogelwch bwyd ac wrth gynllunio amserlenni cynnal ataliol.

Gyda amllder a difrifoldeb digwyddiadau hinsawdd negyddol yn cynyddu, mae'n arfer da cynnwys dadansoddiad risg ymwybodol o'r hinsawdd sy'n canolbwyntio ar amddiffyn eich busnes rhag materion yn gysylltiedig â'r hinsawdd a allai danseilio eich gallu i weithredu yn sylweddol.

Er na fydd efallai'n bosibl rheoli'r tywydd, gallwch gymryd camau i addasu a rheoli ei ganlyniadau, a bydd y mesurau hyn yn cyflymu amseroedd adfer busnes ar ôl digwyddiad mawr.





Dadansoddi Risg

Mae dadansoddi risg a rheoli risg yn elfennau hanfodol o gynllunio prosiectau a gwneud penderfyniadau yn yr amgylchedd busnes dynamig sydd ohoni heddiw.

Mae bron pob gweithgarwch yn cynnwys rhyw lefel o risg, sy'n amrywio o newidiadau hinsawdd i gystadleuwyr newydd neu ffactorau allanol annisgwyl yn ymddangos.

Diben dadansoddi risg yw asesu'r risgiau posibl a phenderfynu ar y camau mwyaf effeithiol i leihau tarfu ar gynlluniau neu brosiectau. Yn ychwanegol, mae'n helpu gwerthuso cost-effeithiolrwydd y strategaethau a ddefnyddir i reoli'r risgiau hyn.



Beth yw risg?

Yn aml, diffinnir risg fel “graddau canfyddedig colled bosibl.” Yn nodweddiadol, mae pawb yn dirnad effaith risg benodol yn wahanol – gallai'r hyn sy'n ymddangos yn risg fach i chi gael ei ddirnad yn fygythiad sylweddol i rywun arall.

Mae asesu risg yn cynnwys amcangyfrif effaith gyfunol dwy elfen: Difrifoldeb (effaith) a Thebygolrwydd (pa mor debygol). Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo risg wedi'i fynegi fel a ganlyn:

$$\text{Risg} = \text{Difrifoldeb} \times \text{Tebygolrwydd}$$

Gwelir arwyddocâd ymarferol y fformiwla hon yn y ffaith, hyd yn oed gyda'r hyn sy'n ymddangos yn risgiau uchel i ddechrau, trwy roi mesurau rheoli priodol ar waith, gallwch leihau tebygolrwydd problemau, gan arwain at risgiau a reolir yn effeithiol. I'r gwrthwyneb, gall risg sy'n gymharol isel i ddechrau ddod yn risg sylweddol os nad ydych yn ei rheoli'n iawn.

Cynnal asesiad risg

Yn nodweddiadol, byddwch yn cynnal y cyfrifiad risg ar gyfer gweithgareddau presennol, gan ystyried unrhyw gamau rheoli sydd gennych ar waith eisoes. Fodd bynnag, mae hefyd yn ddefnyddiol iawn pan fyddwch chi'n edrych ar senarios posibl ac yn ffurfio camau i liniaru risgiau posibl yn y dyfodol.

I gynnal asesiad risg, mae'r broses yn golygu eich bod:

- 1. Yn nodi risgiau posibl.
- 2. Yn pennu gwerthoedd rhifiadol priodol (fel arfer ar raddfa o 1-5) ar gyfer difrifoldeb a thebygolrwydd, lluosir gwerthoedd hyn gyda'i gilydd, ac wedyn mapio a chroesgyfeirio'r canlyniad ar dabl graddio risg.

Mae'r tabl graddio risg yn helpu categorieiddio lefel y risg ar sail y sgôr a gyfrifwyd i'ch galluogi i flaenoriaethu risgiau a dyrannu adnoddau yn fwy effeithiol.

Trwy werthuso a rheoli risgiau yn systematig, gallwch wella gallu eich busnes i oresgyn ansicrwydd a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau prosiect llwyddiannus.

Y tabl asesu risg

Fel y gallwch weld o'r tabl asesu risg hwn, caiff y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd a pha mor ddifrifol fyddai'r canlyniadau, eu sgorio o 1 i 5, a bydd y risg benodol yr ydych yn ei hasesu yn disgyn wedyn i un o'r blychau ar y matrices.

Mae codau lliw yn y blychau hyn i ddangos a farnwyd bod lefel y risg yn isel (gwyrdd), canolig (ambr) neu'n uchel (coch).

Tebygolrwydd

5	Sicr	5	10	15	20	25
4	Tebygol iawn	4	8	12	16	20
3	Tebygol	4	6	9	12	16
2	Annhebygol	2	4	6	8	10
1	Annhebygol iawn	1	2	3	4	5
		1 Isel	2	3	4	5 Uchel

Difrifoldeb

Lliniaru'r risg

Caiff y camau y dylech eu cymryd i liniaru'r risg eu pennu gan y sgôr yr ydych wedi'i phennu iddi, fel yr amlinellir yn y tabl isod.

[Cliciwch yma am dempled Asesu Risg golygadwy](#)

Sgôr Risg	Camau sydd eu Hangen
0-5 Risg Isel	Dim angen camau pellach
6-9 Risg Ganolig	Dylech nodi mesurau rheoli ychwanegol priodol a'u rhoi ar waith yn brydlon
10-25 Risg Uchel	Ni ddylid dechrau gwaith neu dylai ddod i ben nes gallwch nodi a gweithredu mesurau rheoli ychwanegol priodol sy'n gostwng y sgôr risg i'r parthau ambr neu wyrdd.

Dysgu o ddiwyddiadau trwch blewyn


Mae digwyddiadau “trwch blewyn” yn achosion andwyol lle caiff canlyniad annymunol ei osgoi o drwch blewyn. Dyma’r adegau “whiw, roedd hynny’n agos”!

Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Damwain – mae rhywun yn eich tîm yn osgoi cael anafiad o drwch blewyn gan goeden yn disgyn ar ei cerbyd yn ystod storm.
- Lleihau archeb cwsmer – mae cynhwysyn allweddol sydd wedi bod yn brin o ran cyflenwad o ganlyniad i amodau hinsawdd andwyol yn cyrraedd jest mewn pryd er mwyn eich galluogi i gyflawni archeb bwysig.
- Llifogydd – bron yn achosi difrod i’ch safle, ac amharu arno.
- Difrod storm – mae’r paneli ar eich to yn aros yn sownd o drwch blewyn mewn ambell le ac nid ydynt yn datgysylltu’n llwyr.

Yng nghyd-destun rheoli risg, gall digwyddiadau trwch blewyn roi mewnwleidiadau gwerthfawr i chi i’r peryglon a’r bregusrwydd posibl o fewn eich busnes.

Mae defnyddio ymagwedd ragweithiol a dadansoddi digwyddiadau trwch blewyn yn eich galluogi i adnabod risgiau sylfaenol a mynd i’r afael â nhw cyn iddynt ddwysáu i fod yn achosion go iawn, a gall helpu gwella diogelwch, effeithlonrwydd gweithredol a chydnerthedd busnes cyffredinol.



Mae strategaeth i adolygu digwyddiadau trwch blewyn nid yn unig yn diogelu eich gweithwyr, eich asedau a'ch enw da, ond hefyd yn cyfrannu at eich cynaliadwyedd a'ch llwyddiant hirdymor.

Mae mabwysiadu dadansoddiad digwyddiadau trwch blewyn ar gyfer gwelliant parhaus yn cyd-fynd ag arferion gorau mewn lliniaru risg ac yn meithrin diwylliant sy'n ymwybodol o ddiogelwch o fewn eich sefydliad.

Trwy ddilyn y camau isod, gallwch sicrhau bod digwyddiadau "y bu bron iddynt ddigwydd" yn cael eu defnyddio i lywio a gwella'ch dealltwriaeth o risgiau. Bydd hyn yn eich helpu i bennu sut i osgoi neu leihau deilliannau negyddol unrhyw ddigwyddiad sioc a allai ddigwydd.

Aðnabod digwyddiadau trwch blewyn

Sefydlu	Gweithredu	Meithrin	Cynnal	Dadansoddi	Integreiddio
Sefydlu meini prawf clir: Diffiniwch ddigwyddiad trwch blewyn yn gysylltiedig â'ch busnes – fel digwyddiadau tywydd eithafol, achosion o darfu ar gadwyni cyflenwi, neu newidiadau rheoleiddio	Rhoi systemau monitro ar waith: Defnyddiwch offer monitro'r tywydd, olrhain cadwyni cyflenwi, a gwybodaeth arall i gadw golwg ar ffactorau perthnasol sy'n effeithio ar eich busnes	Meithrin diwylliant adrodd: Anogwch gyflogeion i roi gwybod am ddigwyddiadau trwch blewyn posibl yn brydlon, gan ddarparu sianelau clir ar eu cyfer	Cynnal asesiadau rheolaidd: Adolygwch eich gweithrediadau, eich cadwyni cyflenwi a ffactorau amgylcheddol i adnabod unrhyw ddigwyddiadau trwch blewyn	Dadansoddi tueddiadau: Defnyddiwch wybodaeth i adnabod patrymau a thueddiadau mewn ddigwyddiadau trwch blewyn, gan helpu nodi meysydd bregusrwydd a llywio strategaethau lliniaru rhagweithiol	Integreiddio adborth ac addasu: Ymgorfforwch wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau trwch blewyn yn eich arferion busnes yn barhaus, diweddarwch gynlluniau rheoli risg a strategaethau cydnerthedd yn unol â hynny i addasu i newid hinsawdd

[Cliciwch yma am dempled Digwyddiad trwch blewyn golygadwy](#)



Ym mis Rhagfyr 2024, arweiniodd difrod o Storm Darragh at goed yn disgyn a cheblau agored ger Ponterwyd, ac arweiniodd hyn at gau'r A44 rhwng Llangurig ac Aberystwyth. Ailgyhyrchwyd y ddelwedd gyda chaniatâd caredig Traffig Cymru.

Ffocws Ar: Effeithiau Rhaeadru


Pan fydd digwyddiad syfrdanol yn gysylltiedig â'r hinsawdd, mae'n gyffredin i hyn gael effaith "raeadru" neu ddomino, sy'n golygu bod sawl effaith negyddol yn digwydd ar yr un pryd, wedi'u sbarduno gan ei gilydd.

Er enghraifft:

- Mewn storm fawr, gallai gwyntoedd cryf iawn ddod â cheblau pŵer i lawr, tra bod llifogydd yn gorlethu safleoedd trin dŵr a rhwystrau fel coed wedi disgyn neu dirlithriadau yn rhwystro ffyrdd.
- Heb drydan, ni fydd systemau TGCh (Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu) a chyflenwadau nwy yn gweithredu yn ôl yr arfer.
- Yn yr un modd, efallai na fydd yn bosibl trin dŵr a gallai cyflenwadau dŵr gael eu cau i ffwrdd.
- Gallai diffyg pŵer olygu na all siopau werthu bwyd, sydd naill ai'n cynyddu'r galw oherwydd "prynu mewn panig" neu'n lleihau'r galw gan nad oes angen stoc ar siopau sydd ar gau.
- Efallai mai'r cyngor swyddogol fyddai i bobl aros gartref, sy'n golygu na fydd staff efallai'n mynd i'r gwaith, yn enwedig os yw ysgolion ar gau ac mae ganddynt gyfrifoldebau gofal plant.

Yn y senario hwn, efallai bydd eich safle gweithgynhyrchu heb drydan i bweru offer cynhyrchu neu gynnal tymereddau oergelloedd neu rewgelloedd, ac efallai nad oes gennych chi gyflenwad dŵr yfadwy na ffordd o waredu elifant yn ddiogel.

Efallai nad ydych yn gallu cyfathrebu â staff, cyflenwyr a chwsmeriaid gan nad yw offer TGCh yn gweithio, ac efallai nad yw eich staff, a chyflenwadau i mewn ac allan, yn gallu cyrraedd eich safle.



Aðnabod effeithiau rhaeadru

Wrth asesu risgiau a pha gynlluniau y gallai fod angen i chi eu rhoi ar waith ar gyfer argyfyngau, dylech chi gynllunio sut gallai risgiau gyfuno a dwysáu ar gyfer eich safle.

Bydd pob sefyllfa'n amrywio, ond gallai enghreifftiau o gwestiynau i'w gofyn i chi'ch hun gynnwys:

- Pe bai colli cyflenwadau trydan yn eich ardal wedi atal canolfannau trin dŵr rhag gweithio'n effeithiol a bod cyflenwadau dŵr yn cael eu torri neu'n cael eu halogi, a allech chi weithredu heb gyflenwadau dŵr yfadwy at ddibenion staff, hylendid a chynhyrchu?
- Pe bai diffyg trydan i bweru ardaloedd oer neu rewedig o'r safle, pa mor hir fyddai cyn i ddiogelwch bwyd ac ansawdd deunyddiau crai a stoc orffenedig gael eu peryglu - oriau, dyddiau? Pa effeithiau eraill allai ddigwydd?
- Sut byddech chi'n cyfathrebu â staff allweddol, rheoli archebion cwsmeriaid neu wirio statws ardaloedd o'r safle sy'n cael eu monitro o bell pe nai bai eich gweinyddion Wi-Fi a TG yn gweithio?

Mae defnyddio'r ymagwedd CCACCP yn ddefnyddiol i ystyried y risg neu'r cyfuniad o risgiau, penderfynu ar ba bwynt "sbardun" fyddai angen cymryd camau brys, a chynllunio beth fyddai'r rhain.

Mae canllaw cam wrth gam ar gael isod i'ch cynorthwyo yn eich proses asesu, ac mae rhestr wirio ar gael, hefyd.

[Cliciwch yma am restr wirio fuddiol ar gyfer asesu senarios rhaeadru](#)

Canllaw cam wrth gam i aðnabod effeithiau rhaeadru

Aðnabod	Map	Asesu	Gweithredu	Monitro	Datblygu
Adnabod sbardunau posibl: Dechreuwch drwy adnabod sbardunau neu ddigwyddiadau posibl a allai ddechrau effeithiau rhaeadru, er enghraifft trychinebau naturiol, methiannau technolegol, cwympiadau yn y marchnad, neu siociau systemig eraill	Map rhyng-gysylltiadau: Mapiwch y rhyng-gysylltiadau rhwng gwahanol elfennau o'r system Mae hyn yn cynnwys deall sut gallai un digwyddiad effeithio ar y system gyfan, gan effeithio ar elfennau rhyng-gysylltiedig amrywiol, er enghraifft trydan, dŵr a TG	Asesu bregusrwydd: Gwerthuswch fregusrwydd o fewn y system Pennwch pa elfennau sydd fwyaf tueddol i effeithiau rhaeadru a ble mae gwendidau posibl Ystyriwch ddibyniaethau uniongyrchol ac anuniongyrchol	Rhoi camau diogelu ar waith: Cyflwynwch gamau diogelu i leihau i'r eithaf achosion o effeithiau rhaeadru yn lluosogi Gallai hyn gynnwys amrywio cadwyni cyflenwi, rhoi systemau wrth gefn ar waith, sefydlu protocolau brys, a chryfhau seilwaith critigol	Monitro a systemau rhybudd cynnar: Rhowch systemau monitro a mecanweithiau rhybudd cynnar ar waith i ddarganfod sbardunau posibl ac effeithiau rhaeadru sy'n dod i'r amlwg mewn amser real	Datblygu cynlluniau wrth gefn: Datblygwch gynlluniau wrth gefn cynhwysfawr yn amlinellu strategaethau ymateb i reoli effeithiau rhaeadru Dylech gynnwys camau, rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio ymlaen llaw, protocolau cyfathrebu a dyrannu adnoddau a fydd yn ymateb yn effeithiol i effeithiau digwyddiadau rhaeadru ac yn eu lliniaru



Rheoli Newid

Mae gallu rheoli newid yn effeithiol yn sgil busnes critigol ac mae'n hanfodol ar gyfer sicrhau cydnherthedd, arloesedd a chynaliadwyedd mewn unrhyw fusnes, p'un a yw'n fusnes mawr neu fach.

Mae'r sgiliau rheoli newid hyn yn hynod hanfodol yn ystod cyfnodau o ansicrwydd, er enghraifft newidiadau economaidd a datblygiadau technolegol, ond hefyd, fel yr amlygwyd yn ddiweddar, argyfyngau byd-eang fel pandemig COVID-19 a newid hinsawdd.

Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r sgiliau rheoli newid hyn yn dod yn hollbwysig gan fod rhaid i chi a'ch tîm fod yn hyblyg ac yn addasol i lywio heriau annisgwyl.

Mae'r ymagwedd CCACCP gyfan yn cefnogi rheoli newid trwy eich cynorthwyo i greu cynlluniau gwybodus a thargedu meysydd a fydd yn rhoi'r buddion gorau posibl i chi o gamau tra ystyriol a chymesur.

Un o'r heriau allweddol wrth reoli newid yw gwrthwynebiad gan unigolion a grwpiau sy'n gyfarwydd ac yn gyfforddus â phrosesau a strwythurau presennol.


Dyma pam mae'r broses rheoli newid yn cynnwys cynllunio, cyfathrebu a gweithredu newidiadau i liniaru gwrthwynebiad a gwella'r tebygolrwydd y bydd y newid yn cael ei fabwysiadu'n llwyddiannus. Mae'n cwmpasu ystod o weithgareddau, o asesu'r angen am newid i gynllunio strategaethau, rhoi cynlluniau ar waith, a gwerthuso deilliannau.

Gall ansicrwydd ddwysáu'r gwrthwynebiad hwn, gan ei gwneud yn hanfodol i chi feithrin diwylliant o gyfathrebu agored, empathi a chydweithio. Yn ychwanegol, mae rheoli newid yn ystod cyfnodau ansicr yn aml yn cynnwys gwneud penderfyniadau gyda gwybodaeth anghyflawn, sy'n golygu bod hyblygrwydd ac ymatebion cyflym i amgylchiadau sy'n esblygu yn angenrheidiol – gall pob un o'r rhain fod yn eithriadol o heriol.

P'un a yw'n golygu mynd i'r afael ag addasu i'r hinsawdd neu newidiadau eraill, mae rheoli newid yn effeithiol yn gonglfaen i lwyddiant mewn byd sy'n esblygu o hyd, ac yn meithrin hyblygrwydd a chydnerthedd o fewn sefydliad. Mae hyn nid yn unig yn sicrhau goroesiad, ond hefyd yn gosod eich busnes ar gyfer llwyddiant parhaus trwy feithrin meddylfryd hyblyg, achub ar gyfleoedd ac ysgogi arloesedd newydd wedi'i dargedu'n dda.

Mae nifer o fframweithiau sy'n cynorthwyo â rheoli newid, yn ogystal ag asesu risg, sy'n cael eu trafod uchod. Byddwn hefyd yn edrych ar gynllunio senarios. Gweler Modiwl 4 Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu Bwyd ac arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar weithredu ym Modiwl 7 Staff a Darparwyr Gwasanaethau.

Un fframwaith hynod fuddiol ar gyfer rheoli newid yw dadansoddiad maes grym, a amlinellir isod.



Dadansoddiad maes grym

Camau ar gyfer cynnal dadansoddiad maes grym

Mae'r canllaw cam wrth gam hwn yn amlinellu ymagwedd fuddiol at greu eich dadansoddiad o'r grymoedd cadarnhaol a negyddol a allai fod yn effeithio ar eich gallu i roi newid ar waith yn effeithiol o fewn eich busnes, ac mae enghraifft yn cyd-fynd â hyn i ysgogi eich syniadau eich hun.

Cam 1	Diffinio'r Newid neu'r Penderfyniad	<p>Disgrifio'n glir y newid neu'r penderfyniad yr ydych yn ei ystyried.</p> <p>Gallai hyn fod yn gysylltiedig ag addasu i newid hinsawdd neu lawer o bethau eraill o roi proses newydd ar waith, cyflwyno cynnyrch, neu wneud newid sefydliadol.</p>
Cam 2	Adnabod Grymoedd Gyrru	<p>Rhestru'r holl ffactorau sy'n cefnogi newid neu'n gwrthwio amdano.</p> <p>Y rhain yw'r ataliol sy'n cyfrannu at lwyddiant y newid a byddant yn amrywio'n eang – gallent fod yn ffactorau mewnol neu allanol a chynnwys ffactorau rhesymegol ac emosiynol, fel ei gilydd.</p>
Cam 3	Nodi Grymoedd Ataliol	<p>Rhestru'r holl ffactorau sy'n gwrthwynebu neu'n rhwystro'r newid.</p> <p>Y rhain yw'r grymoedd ataliol sy'n creu rhwystrau neu heriau i'r newid.</p> <p>Yn yr un modd a grymoedd gyrru, gall y rhain fod yn fewnol neu'n allanol, wedi'u gyrru gan emosiwn neu wedi'u seilio mewn ffeithiau a ffigurau</p>
Cam 4	Pennu Sgorau	<p>Pennu sgôr rifiadol i bob grym yn seiliedig ar ei gryfder neu'i effaith ar y newid.</p> <p>Defnyddio graddfa, er enghraifft 1 i 5, lle mae 1 yn wan a 5 yn gryf.</p>
Cam 5	Creu Diagram Dadansoddi Maes Grym	<p>Creu cynrychiolaeth weledol trwy dynnu llinell lorweddol ar draws canol darn o bapur, yn cynrychioli'r sefyllfa neu'r penderfyniad presennol.</p> <p>Ar yr ochr chwith, rhestru'r grymoedd gyriadol, a phennu sgorau.</p> <p>Ar yr ochr dde, rhestru'r grymoedd ataliol a phennu sgorau.</p> <p>Gallwch blotio'r grymoedd hyn fel llinellau gyda hydau yn gymesur â'u sgorau. Yr hiraf yw'r llinell, y cryfaf yw'r grym.</p>


Cam 6	Dadansoddi'r Diagram	<p>Archwilio'r diagram i asesu'r cydbwysedd cyffredinol rhwng grymoedd gyriadol a grymoedd ataliol.</p> <p>Os yw grymoedd gyriadol yn gryfach, mae tebygolrwydd uwch o newid llwyddiannus, ond os yw grymoedd ataliol yn fwy amlwg, gallai'r newid wynebu mwy o heriau.</p>
Cam 7	Datblygu Strategaethau	<p>Nodi strategaethau i atgyfnerthu grymoedd gyriadol ac/neu wanhau grymoedd ataliol.</p> <p>Gallai hyn gynnwys defnyddio cryfderau i'r eithaf, mynd i'r afael â gwendidau, manteisio ar gyfleoedd, neu liniaru bygythiadau.</p>
Cam 8	Gweithredu a Monitro	<p>Rhoi'r newidiadau arfaethedig ar waith a monitro'r grymoedd yn barhaus.</p> <p>Ailasesu dadansoddiad maes grym o bryd i'w gilydd i addasu strategaethau yn ôl yr angen.</p>

Mae'r dadansoddiad yn darparu cynrychiolaeth weledol gref o'r grymoedd hyn, gan roi dealltwriaeth well i chi o'r ddynwedd sydd ar waith trwy bennu llinellau hirach i rymoedd cryfach a llinellau byrrach i rymoedd gwannach.

Bydd yn arbennig o fuddiol i chi wrth reoli newid o fewn eich busnes ac ar gyfer cynllunio strategol, a phrosesau gwneud penderfyniadau. Trwy ddychmygu'r grymoedd ar waith, mae dadansoddiad maes grym yn darparu fframwaith ar gyfer eich busnes i wneud penderfyniadau gwybodus a rheoli newid yn effeithiol o fewn cyd-destun busnes.

Gallai'r enghraifft ymarferol hon o ddadansoddiad maes grym isod gynnig man cychwyn buddiol i chi ar gyfer cynnal eich dadansoddiad eich hun, wedi'i deilwra i amgylchiadau eich busnes.

Enghraifft o ddadansoddiad maes grym: Foodie Company Ltd



Yn Dod Nesaf:

Mae Modiwl 3 yr Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd yn edrych ar y testun arwyddocaol o ran sut gallwch chi asesu'r risgiau hinsawdd i'r safleoedd a'r adeiladau sy'n ffurfio'r lleoedd pwysig ar gyfer eich busnes, yn ogystal â'r llwybrau mynediad a ddefnyddir i gyrraedd y lleoliadau hyn.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ac yn gyfredol ar adeg ysgrifennu. Ni allwn gymryd cyfrifoldeb am ddolenni i wefannau allanol a allai fod wedi torri dros amser.

Gorffennaf 2025



Yn mis Hydref 2018, bu'n rhaid i'r safle pŵer trydan dŵr yn Radur ger Caerdydd, roi'r gorau i gynhyrchu trydan pan oedd llifogydd yno oherwydd bod lefelau'r dŵr yn eithriadol o uchel ar Afon Taf ar ôl Storm Callum.
Awdur : Ceri Breeze – Ffynhonnell : Alamy